



RHOI YN SYTH

Gwnewch wahaniaeth i'ch cymuned
gyda *Debyd Uniongyrchol* ...



... *Cefnogi gwaith eich eglwys*

Y gwahaniaeth y gallwch ei wneud

Mae rhoi yn syth yn cefnogi gwaith ein clerigion a'n heglwys yn eich cymuned. Mae hynny'n cynnwys darparu gweinidogaeth draddodiadol a chymorth ar gyfer ein holl adeiladau, ond mae'r gwaith yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n waliau, i gynnis cymorth a chefnogaeth i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Rydym yn cefnogi pobl agored i niwed drwy ddarparu gofal bugeiliol, rydym yn cynnis cysur i'r rhai sy'n galaru, yn ymweld â'r rhai sy'n unig ac yn darparu banciau bwyd a gwasanaethau cymunedol i'r rhai mewn angen. Mae rhodd i'r eglwys yn ffordd uniongyrchol o helpu pobl eich cymuned.

Rydym yn cynnis cariad Crist drwy ofal, tosturi a chysur a bydd eich rhodd chi yn ein helpu ni i lewyrchu'r goleuni lle mae tywyllwch.

Pam defnyddio Rhoi yn Syth?

Rhoi yn Syth yw ffordd yr Eglwys yng Nghymru o reoli rhoddion Rhodd Cymorth. Cymhelliant treth yn y DU yw Rhodd Cymorth sy'n galluogi unigolion i roi arian i elusennau yn y Deyrnas Unedig heb orfod talu treth. Trwy drefnu Rhoi yn Syth gallwch roi cymorth uniongyrchol i waith yr eglwys ar lefel leol neu genedlaethol.

- Os ydych chi'n talu treth, gallwch hawlio Rhodd Cymorth ar bob rhodd, sy'n ychwanegu 25c at bob £1.
- Does dim angen arian mân wrth fynd i'r eglwys.
- Gallwch gadw rheolaeth ar eich rhoi drwy ein hadnoddau ar-lein: www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/gift-direct.
- Mae eich eglwys leol yn gwybod yn union beth sy'n cael ei dderbyn ac yn gallu cynllunio ei gwaith yn unol â'i chyllideb.

Chi sydd mewn rheolaeth

Bydd unrhyw beth y dewiswch ei roi yn cael ei groesawu fel cyfraniad hael i fywyd a gwaith yr Eglwys yng Nghymru. Mae eich rhodd yn gyfrinachol a gellir ei newid os yw'ch amgylchiadau ariannol yn newid. Gallwch roi rhodd untro neu swm rheolaidd yn fisol. Os ydych am roi i eglwys benodol neu brosiect arbennig neu i'r Eglwys yng Nghymru yn gyffredinol, gallwch wneud hynny. Mae'r broses yn hawdd i'w defnyddio, yn hyblyg i'ch gofynion a chi sy'n rheoli beth fyddwch chi'n ei gefnogi a faint rydych chi'n ei gyfrannu.

*Faint bynnag y penderfynwch chi ei roi,
bydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru.*

Cyfarwyddiadau Ymuno

1. Mae'r daflen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth.
2. Cwblhewch y Ffurflen Ymrwymo i Roi yn y Syth a'r Ffurflen Debyd Uniongyrchol.
3. Tynnwch allan adran amlen y llyfr hwn. Glychwch y tamaid gludiog a'i selio.
4. Does dim angen stamp, mae'r postio am ddim.

Cysylltwch â rhywun yn yr Eglwys yng Nghymru

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cynllun Rhoi yn Syth,

e-bostiwch: giftdirect@churcheinwales.org.uk

neu ysgrifennwch atom:

- Yr Eglwys yng Nghymru, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT

Gweinyddir gan Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, sy'n elusen gofrestredig rhif 1142813.

Debyd Uniongyrchol

Mae pob banc a chymdeithas adeiladu yn rhoi'r warant a argreffir isod:



Y Warant Debyd Uniongyrchol

- Cynigir y Warant hon gan bob banc a chymdeithas adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddyd i dalu Debydau Uniongyrchol.
- Os bydd unrhyw newid i swm, dyddiad neu amllder eich Debyd Uniongyrchol, bydd Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 1142813, yn eich hysbysu ddeng niwrnod gwaith cyn y debydir eich cyfrif neu fel y cytunwyd yn wahanol. Os gofynnwch i Gorff y Cynrychiolwyr gasglu taliad, fe gewch gadarnhad o'r swm a'r dyddiad ar adeg y cais.
- Os yw Corff y Cynrychiolwyr neu eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwneud camgymeriad wrth dalu eich Debyd Uniongyrchol, mae gennych hawl i ad-daliad llawn ac ar unwaith gan eich banc neu gymdeithas adeiladu;
 - Os derbyniwch ad-daliad nad oes gennych hawl iddo, rhaid i chi ei dalu'n ôl i Gorff y Cynrychiolwyr pan ofynnir i chi.
- Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol unrhyw bryd trwy gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Mae'n bosib y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig. Rhowch wybod i ninnau hefyd, os gwelwch yn dda.

Edrychwch sut mae eich arian wedi helpu

Mae Bro Tysilio ar Ynys Môn, mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol, wedi sefydlu Camau Bach i gefnogi rhieni, neiniau a theidiau a gofalwyr ym Mhorthaethwy a'r cyffiniau. Gobaith Camau Bach yw darparu cyfleoedd cymdeithasu hanfodol yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n gofalu am y plant.



Mae'r Parchedig Gareth Coombes a'i dîm o wirfoddolwyr ymroddgar o Eglwys Sant Ioan, Nelson yn rhedeg Banc Bwyd Taf Bargoed, sy'n cynorthwyo teuluoedd sy'n cael trafferth fforddio bwyd maethlon. Mae llawer o eglwysi'n rhedeg Banciau Bwyd fel ffordd o wasanaethu eu cymuned a rhannu neges yr Efengyl mewn ffordd ymarferol.

Mae gwirfoddolwyr eglwys yn Abertawe yn rhedeg Baby Basics - gan ddarparu pecynnau o'r hanfodion cychwynnol ar gyfer babanod a rhieni newydd. Maen nhw'n gweithio gydag asiantaethau proffesiynol i nodi'r rhai mewn angen. Mae basged Moses yn darparu gwely diogel ac mae'n llawn nwyddau ymolchi, yn ogystal â blancedi, tyweli a dillad babi. Mae'n ffordd o ddangos cariad Duw ar waith.



Mae gwirfoddolwyr o Eglwys yr Holl Saint yn y Drenewydd wedi bod yn coginio a darparu cinio dydd Sul i dros 80 o bobl ers dechrau'r pandemig. Mae'n cael ei goginio yng nghegin ysgol gyfagos a'r prydau'n cael eu cydlynu o neuadd yr ysgol. Mae wedi datblygu'n ymdrech i'r dref gyfan bellach, gyda gwirfoddolwyr yn dod o bob cwr o'r gymuned.

Business Reply Plus
Licence Number
RTYE-BSZR-BLCJ



2



Corff y Cynrychiolwyr
Yr Eglwys yng Nghymru
Rhoi yn Syth
2 Sgwâr Ca11aghan
Caerdydd
CF10 5BT

Llenwch y ddwy ffurflen ganlynol.

**Tynnwch yr adran ateb daledig,
ei selio a'i hanfon am ddim.**

FFURFLEN YMRWYMO I RODD CYMORTH

Cwblhewch yr adrannau wedi eu marcio gyda *

* Ystyriwch fy rhodd o £ y mis (neu unrhyw swm a nodaf wedi hynny) trwy Ddebyd Uniongyrchol yn rhodd Rhodd Cymorth.

* **ENW'R PLWYF:**

* *Ticiwch y bocs priodol isod:*

Rwy'n drethdalwr yn y DU.

(Rwy'n deall mai fi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw wahaniaeth os wyf yn talu llai o Dreth Incwm a / neu o dreth Enillion Cyfalaf na'r swm o Rodd Cymorth a hawlr ar fy holl roddion yn y flwyddyn dreth honno.)

neu

Nid wyf yn talu digon o dreth.

(Felly nid wyf am i chi adennill treth ar fy rhoddion.)

* Rwyf am i Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru gynyddu fy rhodd yn awtomatig bob mis Ebrill yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthol am y flwyddyn galendr flaenorol: **Cylchwch: Ydw / Nac Ydw**

* **MANYLION Y RHODDWR:**

Teitl:..... **Enwau cyntaf:**

Cyfen:

Cyfeiriad Cartref:

..... **Cod Post:**

* Iaith ddewisol ar gyfer gohebiaeth: **Cymraeg Saesneg Dwyieithog**

* Dull gohebu: **Post neu E-bost:**

Rwy'n awdurdodi Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 1142813, i gasglu o'm cyfrif banc ar (neu ar ôl) y 6ed dydd o bob mis y swm a nodir uchod neu unrhyw swm a nodaf wedi hynny.

O fewn mis i'w dderbyn bydd yr Eglwys yng Nghymru yn anfon eich rhodd (a'r dreth a ad-delir os bydd hynny'n briodol) ymlaen i'r plwyf a nodwyd gennych.

* **Arwyddwyd:** **Dyddiad:**

Hysbyswch Adran Rhodd Cymorth yr Eglwys yng Nghymru os byddwch:

- Am ganslo'r datganiad hwn
- Yn newid eich enw, cyfeiriad eich cartref neu eich e-bost
- Heb fod bellach yn talu digon o dreth ar eich incwm a/neu enillion cyfalaf.

Os ydych yn talu treth incwm ar y raddfa uwch neu ychwanegol ac am dderbyn y gostyngiad ychwanegol yn y dreth sy'n ddyledus i chi, rhaid i chi gynnwys eich holl roddion Rhodd Cymorth ar eich ffurflen dreth Hunan Asesiad neu ofyn i Gyllid a Thollau EM addasu eich cod treth.

Cyfarwyddwyd i'ch Banc neu i'ch Cymdeithas Adeiladu dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol

Cwblhewch y ffurflen gyfan mewn beiro a'i dychwelyd at:

**Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru,
2 Sgwâr Callaghan, CAERDYDD. CF10 5BT**



Elusen Gofrestredig Rhif 1142813.

Rhif Adnabod y Cychwynnydd: 8 3 6 4 4 6

Enw(au) Deiliad (Deiliaid) y Cyfrif:

--

Rhif cyfrif y Banc / Cymdeithas Adeiladu:

Cod Didoli'r Gangen:

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Enw a chyfeiriad llawn eich Banc neu eich Cymdeithas Adeiladu

At: Y Rheolwr

Enw'r Banc / Cymdeithas Adeiladu:

Cyfeiriad:

.....

..... Cod post

Cyfarwyddyd i'ch Banc neu eich Cymdeithas Adeiladu

Talwch i Gorff y Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru Ddebydau Uniongyrchol o'r cyfrif a enwir yn y Cyfarwyddyd hwn yn amodol ar y diogelwch a gaiff ei warantu gan y Warant Debyd Uniongyrchol. Rwy'n deall y gall Corff y Cynrychiolwyr gadw'r Cyfarwyddyd hwn ac, os felly, yr anfonir y manylion ymlaen yn electronig at fy Manc / Cymdeithas Adeiladu.

Llofnod(ion):

Dyddiad:

Mae Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn cymryd Diogelu Data o ddirif.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut y cedwir eich data a sut y caiff ei brosesu yn:

<https://www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice>.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol

legal@churchinwales.org.uk neu dros y ffôn ar 029 2034 8200

AT DDEFNYDD SWYDDFA:

Cod y Plwyf: Rhif DG: ID Rhoddwr: